

Datganiad Preifatrwydd i Blant

Beth yw datganiad preifatrwydd?

Mae rhybudd preifatrwydd yn helpu'ch meddygfa i ddweud wrthoch sut maent yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt amdanoch, fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a'r holl nodiadau y mae'r meddyg neu'n nyrs yn ysgrifennu amdanoch yn eich cofnod gofal iechyd.

Pam bod angen un arnom?

Mae angen rhybudd preifatrwydd ar eich meddygfa i sicrhau ei bod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a gaiff eu hysgrifennu mewn dogfen newydd o'r enw Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (neu GDPR UK yn fyr yn Saesneg).

Beth yw GDPR DU?

Mae GDPR (DU) yn gyfraith newydd a ddaeth i effaith ar 1af o Ionawr 2021. Mae'n nodi'r egwyddorion allweddol, hawliau a goblygiadau ar gyfer y rhan fwyaf o brosesiadau data bersonol yn y DU, ar wahân i gyfraith orfodol ac asiantaethau cudd.

Mae'n helpu'ch meddygfa i gadw'r wybodaeth amdanoch yn ddiogel. Cafodd ei gyflwyno i wneud yn siŵr bod eich meddyg, nyrs ac unrhyw staff arall yn y feddygfa yn dilyn y rheolau ac yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel.

Yn y feddygfa, mae gennym bosteri yn yr ystafell aros a thafleuni i'w rhoi i blant ac oedolion ac mae gennym hefyd wybodaeth am breifatrwydd ar ein gwefan, yn dweud wrthoch sut ydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch.

Pa wybodaeth ydym ni'n ei gasglu amdanoch chi?

Peidiwch â phoeni; dim ond yr wybodaeth sydd ei angen arnom i'n helpu i'ch cadw chi'n iach yr ydym yn ei gasglu fel eich enw, cyfeiriad, gwybodaeth am eich rhieni neu'ch gwarchodwyr, cofnodion o'ch apwyntiadau, ymweliadau, galwadau ffôn, eich cofnod iechyd, triniaeth a meddyginiaethau, canlyniadau profion, pelydr-x ac unrhyw wybodaeth arall i'n galluogi ni i ofalu amdanoch.

Sut ydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth?

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth er mwyn ein helpu i ddarparu eich gofal. Efallai bydd angen i ni rannu'r wybodaeth hon gyda timau meddygol eraill, fel ysbytai, os bydd angen i chi gael eich gweld gan feddyg arbennig neu os byddwch yn cael eich anfon am belydr-x. Efallai bydd gofyn i'ch meddygfa helpu gyda ymchwil meddygol cyffrous; ond peidiwch â phoeni, byddwn bob amser yn gofyn i chi, neu'ch rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldeb rhieni, os bydd yn iawn i ni rannu'ch gwybodaeth.

Sut ydym yn cadw'ch gwybodaeth yn gyfrinachol?

Mae'ch meddygfa'n gwybod ei fod yn bwysig iawn i ddiogelu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y rheolau sydd wedi'u hysgrifennu yn y GDPR (DU) a llyfrau rheolau pwysig eraill.

Beth os oes gennyf broblem feddygol tymor hir?

Os oes gennych broblem feddygol tymor hir yna rydym yn gwybod ei fod yn bwysig i wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn cael ei rannu gyda gweithwyr gofal iechyd eraill er mwyn eu helpu i'ch helpu chi, gan sicrhau eich bod yn cael y gofal sydd ei angen arnoch pan fyddwch ei angen!

Dim eisiau rhannu?

Gall bob un o'n cleifion, dim ots beth yw eu hoed, ddweud nad ydynt eisiau rhannu eu gwybodaeth. Os ydych o dan 16 mlwydd oed mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'ch rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldeb rhieni amdanoch benderfynu arno. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth gan aelod o staff yn y feddygfa, a all hefyd egluro beth mae hyn yn ei olygu i chi.

Sut allaf gael mynediad at fy nghofnodion?

Ydych chi'n cofio ni'n dweud wrthoch chi am y GDPR? Os ydych eisiau gweld beth sydd wedi'i ysgrifennu amdanoch, mae gennych hawl i gael mynediad at y wybodaeth sydd gennym amdanoch, ond bydd angen i chi gwblhau Cais Mynediad at Wybodaeth (SAR). Bydd eich rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldeb rhieni yn gwneud hyn ar eich rhan os ydych o dan 16 mlwydd oed.

Fy Iechyd Ar-lein (MHOL) - Cofrestrriad Ar-lein i Drefnu Apwyntiadau ac Archebu Ail Bresgripsiynau

Mae cofrestru ar gyfer Fy Iechyd Ar-lein yn eich galluogi chi i drefnu apwyntiad Meddyg Teulu rheolaidd 24 awr y dydd, gohirio apwyntiadau nad oes eu hangen mwyach, gwirio eich ail bresgripsiynau, archebu ail bresgripsiynau a gwneud newidiadau i'ch e-bost a'ch rhif ffôn symudol lle bo angen. Os ydych o dan 13

oed, gall eich rhiant neu warchodwr cyfreithlon gofrestru a gweithredu ar eich rhan. Os ydych rhwng 13 ac 16 oed, gallwch awdurdodi rhiant neu warchodwr cyfreithlon i ddefnyddio MHOL ar eich rhan. Mae'n rhaid i gleifion dros 16 oed gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn eu hunain. Mae'n bosib dad-gofrestru unrhyw bryd. Cysylltwch gyda staff y dderbynfa am wybodaeth pellach.

Marchnata i Gleifion

Bydd y Feddygfa yn anfon hysbysiadau ynghylch Gwasanaethau Clinigol drwy neges destun, neges llais ffôn, E-bost neu lythyr at eich gwarcheidwaid os ydych o dan 16 oed. Gall hyn gynnwys negeseuon yn eu hatgoffa o'ch apwyntiad, gwybodaeth am glinigau ffliw, gwybodaeth hyrwyddo iechyd, gohiriadau i glinigau a newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth. Os ydych ar fin troi'n 16 oed, dylech gysylltu gyda'r feddygfa i ddiweddarau eich holl fanylion cyswllt fel bod y negeseuon yn eich cyrraedd chi yn uniongyrchol yn hytrach na'ch gwarcheidwad. Mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl o'r gwasanaeth hysbysiadau neges ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r feddygfa.

Beth ydw i'n ei wneud os bydd gennyf gwestiwn?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i un o dîm y Feddygfa neu eich rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gallwch ofyn i siarad â Rheolwr y Feddygfa neu'r Dirprwy

Beth i'w wneud os nad ydych yn hapus am sut ydym yn rheoli eich gwybodaeth?

Rydym wirioneddol eisiau sicrhau eich bod yn hapus, ond rydym yn deall weithiau y gall pethau fynd o'i le. Os ydych chi neu'ch rhieni neu oedolion sydd â chyfrifoldeb rhieni yn anhapus gydag unrhyw ran o'n dulliau prosesu data, gallwch siarad â rheolwr y feddygfa yn gyntaf. Os byddwch yn dal yn anhapus, gallwch gwyno. Am fwy o wybodaeth ewch ar ico.org.uk a dewis 'Raising a concern'.

Rydym bob amser yn gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth a roddir i chi yn gyfredol. Bydd unrhyw ddiweddariadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, yn ein taflenni, ac ar ein posterï.

I weld Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, Partneriaeth

Cydwasaethau GIG Cymru, dilynwch y linc yma:

<http://www.nwssp.wales.nhs.uk/hysbysiad-preifatrwydd-1>

Adolygwyd y polisi hwn ym Mehefin 2021.